*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod hybrid o'r CABINET yn cael ei gynnal ar**
**Dydd Mercher, 20fed Mawrth, 2024 am 10.30 am**

**Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Uned Busnes y Cyngor (Rhif ffôn. 07385 406118)**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, 2 Llys Cadwyn, Stryd Taf, Pontypridd, CF37 4TH**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Llun, 18 Mawrth 2024. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:
1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod Pwyllgor y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2024 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 7 - 14)**

## ADRODDIADAU ER GWYBODAETH

**3. CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD - 3A**

Derbyn diweddariad ynghylch Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd er gwybodaeth.

**4. ADBORTH RHAG-GRAFFU**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sy'n rhoi adborth a sylwadau mewn perthynas â'r eitemau y rhag-graffwyd arnyn nhw gan Bwyllgorau Craffu thematig y Cyngor yn dilyn cyfarfodydd diweddaraf y Pwyllgorau, er gwybodaeth.

**(Tudalennau 15 - 26)**

## ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

**5. RHAGLEN WAITH Y CABINET**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sy'n rhoi diweddariad o ran y rhestr arfaethedig i'r Cabinet o faterion sydd angen eu hystyried yn ystod gweddill Blwyddyn 2023–24 y Cyngor.

**(Tudalennau 27 - 52)**

**6. ADOLYGIAD O BOLISI CLUDO DISGYBLION O'R CARTREF I'R YSGOL Y CYNGOR**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth, yn cynnwys dogfennau perthnasol eraill mewn perthynas â'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol newydd arfaethedig, sydd â'r nod o gynorthwyo'r Cabinet gyda'i benderfyniad.

**(Tudalennau 53 - 192)**

**7. GWEITHIO GYDA'N CYMUNEDAU - DRAFFT O GYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR AR GYFER 2024-2030**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr, sy'n amlinellu drafft o'r Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024/5 - 2029/30.

**(Tudalennau 193 - 348)**

**8. ADRODDIAD CYFLAWNIAD Y CYNGOR – 31 RHAGFYR 2023 (CHWARTER 3)**

Derbyn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid a Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen, sy'n rhoi trosolwg i'r Aelodau o gyflawniad y Cyngor dros naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon hyd at 31 Rhagfyr 2023, a hynny o safbwynt ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

**(Tudalennau 349 - 384)**

**9. RHAGLEN GYFALAF ATODOL 2024-2025 AR GYFER Y PRIFFYRDD, TRAFNIDIAETH A CHYNLLUNIAU STRATEGOL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth, sy'n nodi rhaglen gyfalaf fanwl ar gyfer y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol.

**(Tudalennau 385 - 408)**

**10. RHAGLEN GYFALAF ARFAETHEDIG ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT 2024-2025**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n darparu manylion ynghylch y gwaith cyfalaf i'w gymeradwyo ar gyfer 2024/25, yn rhan o Raglen Gyfalaf dair blynedd y Cyngor.

**(Tudalennau 409 - 420)**

**11. ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2022-2023**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol sy'n cyflwyno gwybodaeth ynglŷn ag Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2022-2023.

**(Tudalennau 421 - 504)**

**12. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-2028**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol sy'n cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2024-2028.

**(Tudalennau 505 - 614)**

**13. GWEITHIO I GREU RHONDDA CYNON TAF OED-GYFEILLGAR**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, sy'n darparu gwybodaeth i Aelodau mewn perthynas ag ymrwymiad parhaus y Cyngor i fod yn Gymuned Oed-gyfeillgar, a'i gais arfaethedig i ddod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar.

**(Tudalennau 615 - 670)**

**14. ASESIAD Y CYNGOR O'R FARCHNAD DAI LEOL 2023-2028**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n cyflwyno canfyddiadau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2023 – 2028 i'r Cabinet; ac yn ceisio cymeradwyaeth cyn i'r ddogfen gael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i chyhoeddi.

**(Tudalennau 671 - 782)**

**15. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**16. DILEU DYLEDION NAD OES MODD EU CASGLU**

Derbyn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid a Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen sy'n rhoi datganiad sefyllfa i'r Aelodau ar ddyledion nad oes modd eu casglu, ac sy'n pennu'r gofyniad i ddileu symiau penodol yn unol â meini prawf adolygu llym.

**(Tudalennau 783 - 794)**

**17. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Paul Mee, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Dirprwy Brif Weithredwr ac Chyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo’r Cyngor
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau’r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Stephen Williams, Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Neil Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol